

FestivalUK*2022

COFNODION PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG FESTIVAL 2022 LTD ("Festival")

2.30 – 5.30pm, Dydd Iau 17 Mehefin 2021

Cynhaliwyd yn bersonol a thrwy Gyfarfod Microsoft Teams

Aelodau:

Faraz Tasnim (FT) (Cadeirydd) Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival
Liam Hannaway (LH) Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival
Roger Lewis (RL) Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival

Arsylwyr:

Adam Richards (AR) PricewaterhouseCoopers (PwC)
Daniel Coles (DC) Yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)
Greg Wilson (CBM) Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO)
Sonia Coates (SC) NAO
Simon Ball (SB) Y Pwyllgor Trefnu ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022 (OC), Cadeirydd ARAC
Sarah Harrod OC, Pennaeth Rheoli Cyllid

Yn bresennol:

David Grady (DG) Prif Swyddog Ariannol y Grŵp, OC a Festival
Caroline McGrory (CMcg) Ysgrifennydd y Cwmni a Phrif Swyddog Cyfreithiol y Grŵp, OC a Festival
John Darnbrook (JD) Pennaeth Integreiddio Busnes, Festival
Phil Batty (PBa) Cyfarwyddwr Gweithredol, Festival
Sarab Hair (SH) Cydgysylltydd Gweithrediadau Corfforaethol, Festival (Ysgrifenyddiaeth)
Richard Pomfret (RP) Uwch Reolwr Cyllid, Festival
Lucy Bailey (LB) Uwch Gwnsler Cyfreithiol, Festival

Ymddiheuriadau:

Amali de Alwis (AA) Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival

RHIF EITEM	EITEM	PERCHENNOG Y WEITHRED
1	<p>Sesiwn gaeedig ARAC/NAO</p> <p>Agorwyd y cyfarfod gan FT ar gyfersesiwn gaeedig gydag aelodau ARAC a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.</p> <p>Yn dilyn y sesiwn gaeedig hon, gofynnwyd i'r mynychwyr a gweddill yr arsylwyr ymuno â'r cyfarfod.</p>	
2	<p>Cymeradwyo Cofnodion a Materion sy'n Codi</p> <p>Cymeradwyodd yr ARAC gofnodion cyfarfod diwethaf ARAC a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2021.</p> <p>Cododd FT faterion sy'n codi fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none">Cam Gweithredu 1 – Parhau i fonitro cyllid Gweinyddiaethau Datganoledig / Cyrff Cyflawni Strategol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fonitro ariannol ar draws rhaglenni. Gweithgor cyllid pedair gwlad i'w sefydlu o fis Ebrill 2021 ymlaen. Cam gweithredu yn yr Arfaeth/Ar y Gweill ac i'w adolygu ym mis Awst.Cam Gweithredu 2 – Sefyllfa'r dreth i barhau i gael ei hadolygu'n rheolaidd, gwaith adolygu penodol i'w wneud pan fydd y 10 prosiect wedi'u cadarnhau. Cam	RP

	<p>gweithredu wedi'i gau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cam Gweithredu 3 - Hyfforddiant Polisi'r Gweithlu i'w olrhain a'i adolygu. Ar Agenda heddiw. Cam gweithredu wedi'i gau. • Cam Gweithredu 4 - RP i adlewyrchu adborth DCMS mewn Polisi Gwrth-dwyll a dosbarthu'r fersiwn derfynol i ARAC. Cam gweithredu wedi'i gau. • Cam Gweithredu 5 - PWC i gwblhau gwiriadau annibynnol ar unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sy'n deillio o wahanol adrannau mewnol yn gweithio gydag unrhyw un o'r deg tîm a gomisiynwyd. Mae hyn wedi'i gwblhau ac nid oes unrhyw bryderon gan PWC. Cam gweithredu wedi'i gau. • Cam Gweithredu 6 - AR i ddarparu adroddiad llawn ar ganlyniadau unrhyw archwiliadau mewnol i ARAC mewn modd amserol. Cam gweithredu wedi'i gau. • Cam Gweithredu 7 - DC i ymgysylltu â'r Trysorlys ar amserlenni ar gyfer y broses Achos Busnes Terfynol. Mae hyn ar y trywydd iawn i gael ei gymeradwyo ar wahân. Cam gweithredu wedi'i gau. • Cam Gweithredu 8 - PBa i gael y wybodaeth ddiweddaraf am brosesau'r Achos Busnes Llawn y mae'r gwledydd datganoledig yn eu dilyn. Mae hyn yn mynd rhagddo. Cam gweithredu wedi'i gau. • Cam Gweithredu 9 - PWC i adolygu'r Cytundeb Rhyng-gwmni cyn iddo fynd i'r Bwrdd i'w gymeradwyo. Cam gweithredu wedi'i gau. 	
<p>3</p>	<p>Y Diweddaraf am y Weithrediaeth</p> <p>Rhoddodd PBa y wybodaeth ddiweddaraf am yr egwyddorion comisiynu, masnachol a negodi allweddol, a'r broses rheoli contractau.</p> <p>Cadarnhaodd PBa fod asiantaeth brand wedi'i phenodi ar gyfer yr Festival a bydd yr asiantaeth yn ymgysylltu â'r Bwrdd ar 6 Gorffennaf.</p> <p>Mae Festival yn parhau i recriwtio ar gyfer nifer sylweddol o swyddi. Cafwyd trafodaeth ynghylch y dull o recriwtio a chadarnhaodd PBa fod Festival yn mapio adnoddau ac yn gweithio'n agos gyda'i darparwr recriwtio i sicrhau ei bod yn cael mynediad at ymgeiswyr mewn gwahanol ddiwydiannau hefyd.</p> <p>Mae Festival hefyd yn y broses o sefydlu perthynas agos gyda'r timau gan gynnwys sut i adeiladu offer rheoli prosiect ymarferol a disgwyliadau i roi sicrwydd o ran cyflawni. Mae tîm Festival hefyd yn cynllunio ymweliadau wyneb yn wyneb gyda'r timau.</p>	
<p>4.1</p> <p>4.2</p> <p>4.3</p>	<p>Crynodeb o'r Adroddiad a Dogfennau sy'n gysylltiedig â'r Datganiadau Ariannol</p> <p>Rhoddodd PC drosolwg o'r gwahanol bapurau a oedd yn cael eu trafod yn y cyfarfod i gefnogi'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y cyfnod o 11 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.</p> <p>Rhoddodd SH ddiweddariad bod Festival yn dal i aros i glywed yn ôl gan dri tîm a gomisiynwyd i gadarnhau eu gwariant ar gyfer mis Mawrth 2021.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p> <p>Cyflwyno Datganiadau Ariannol a Pholisïau a Dyfarniadau Cyfrifyddu Arwyddocaol</p> <p>Cyfeiriodd RP at dudalen 44 o'r pecyn a ddosbarthwyd i'r pwyllgor drwy'r ystafell fwrdd rithwir (VBR) yn amlinellu dadansoddiad o'r cyllid.</p> <p>Fe'i cymerwyd fel cam gweithredu i ddiwygio cofnodion 10 Rhagfyr 2020 i adlewyrchu'r ffaith bod LH wedi mynychu'r cyfarfod hwnnw gan nad oedd hyn wedi'i adlewyrchu yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p> <p>Canfyddiadau Archwilio Allanol a Barn Archwilio</p>	

<p>4.4</p> <p>4.5</p> <p>4.6</p> <p>4.7</p>	<p>Rhoddodd GW drosolwg o adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ymdrin ag archwilio'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol. Cadarnhawyd bod risgiau sylweddol wedi'u cyflawni ac nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y rheolwyr wedi diystyru unrhyw reolaethau, felly nid oedd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw bryderon.</p> <p>Darparwyd papurau ymlaen llaw ar VBR i'r pwyllgor a oedd yn cynnwys drafft o farn archwilio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p> <p>Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol – Y Broses Lywodraethu</p> <p>Cyfeiriodd PC at dudalen 47 o'r pecyn a ddisbarthwyd i'r pwyllgor drwy VBR yn amlinellu'r prosesau sy'n cefnogi cynnwys yr Adroddiad a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.</p> <p>Awgrymodd SB y gellid ychwanegu datganiad fel yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn Adroddiad a Datganiadau Ariannol yr OC at un Festival.</p> <p>Yn unol â'r safonau archwilio, gofynnwyd am y Llythyr Sylwadau y mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr ei gymeradwyo, a'i lofnodi.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p> <p>Ystyriaethau Busnes Gweithredol</p> <p>Cyfeiriodd RP at dudalen 64 o'r pecyn a ddisbarthwyd i'r pwyllgor drwy'r VBR yn amlinellu'r rhesymeg dros fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r Adroddiad a'r Datganiad Ariannol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur</p> <p>Adolygiad o ARAC</p> <p>Cyfeiriodd RP at dudalen 66 o'r pecyn a ddisbarthwyd i'r pwyllgor drwy VBR yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r casgliadau a wnaed ganddo. Roedd y papur hwn yn rhoi cymorth i'r datganiadau a gynhwyswyd yn Natganiad Llywodraethu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.</p> <p>Gofynnwyd i bwynt 6.3 yn y papurau gael ei ddiwygio i ddweud "disgwyliedig" ar gyfer cyhoeddi'r farn wedi'i haddasu.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p> <p>Argymhelliad i Fwrdd yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol</p> <p>Cyfeiriodd SH at dudalen 68 o'r pecyn a ddisbarthwyd i'r pwyllgor drwy'r VBR i argymhell y Cyfrifon cyfredol. Oherwydd bod rhai diwygiadau i'w gwneud o hyd, bydd SH, FT a LH yn cyfarfod yr wythnos nesaf i gwblhau'r gwelliannau cyn mynd i'r Bwrdd, ynghyd â'r Llythyr Sylwadau nad yw wedi'i gwblhau eto.</p> <p>Cadarnhawyd ei bod yn ofynnol i Festival o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ailbenodi'r archwilwyr yn flynyddol. Yn unol â'r Cytundeb Grant, bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cael ei hailbenodi.</p>	<p>RP</p>
---	--	-----------

	Nododd ARAC gynnwys y papur.	
5.1	<p>Archwiliad Mewnol</p> <p>Cyfeiriodd AR at dudalen 71 y pecyn a ddsbarthwyd i'r pwyllgor drwy'r VBR yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgareddau Archwilio Mewnol a gynhaliwyd ynghyd â'r Cynllun Archwilio Mewnol Gydol Oes dros y misoedd nesaf.</p> <p>Awgrymwyd y dylid cynnal sgysiau pellach ar adrodd risg gyda PBa, JD, gyda PWC i gael rhagor o wybodaeth.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p>	
6	<p>Adroddiad Perfformiad Ariannol</p> <p>Cyfeiriodd RP at dudalen 74 o'r pecyn a ddsbarthwyd i'r pwyllgor drwy'r VBR yn amlinellu'r Adroddiad Perfformiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn ar 30 Ebrill 2021.</p> <p>Cadarnhawyd nad oedd unrhyw faterion yn codi yn y gyllideb gydol oes sy'n creu unrhyw risg sylweddol.</p> <p>Cadarnhaodd RP fod Festival wrthi'n cwblhau contractau'r comisiwn a ddilynir wedyn gan gyfarfodydd gwariant misol gyda'r timau a fydd yn llifo i mewn i Adroddiadau Rhagolwg misol. Cadarnhawyd ymhellach na fydd unrhyw arian wrth gefn gweithredol yn cael ei gyffwrdd tan 2022.</p> <p>Defnyddir y gronfa wrth gefn hon i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â model gweithredu cyflenwi'r gweithlu a risgiau eraill. Caiff hyn ei reoli drwy ARAC yn unol â'r cynllun dirprwyo ariannol.</p> <p>Cynllun Cyhoeddi</p> <p>Mae Festival wrthi'n cwblhau ei chynllun cyhoeddi er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn dryloyw yn cael ei darparu drwy wefan y cwmni. FT i weld fersiwn cyn iddo fynd yn fyw.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p>	
7.	<p>Y Cyfanfyd Risg, Trosolwg o Newidiadau Allweddol a Phroffilio Risg Prosiectau</p> <p>Cyfeiriodd JD at dudalen 78 o'r pecyn a ddsbarthwyd i'r pwyllgor drwy'r VBR yn amlinellu'r Dirwedd Risg Strategol. Crëwyd hwb casglu risgiau gan yr OC, ac mae FT wedi gweld y Gofrestr i sicrhau bod yr holl risgiau wedi'u cofnodi'n briodol.</p> <p>Cymerwyd camau i JD ddarparu arddangosiad o'r system i aelodau eraill ARAC.</p> <p>Nodwyd y dylid gwthio risg 56 i barth coch. Rhoddodd JD grynodedb manwl o'r tair risg goch arall ynghyd â'r risgiau newydd a nodwyd.</p> <p>Cymerwyd camau i atgoffa holl weithwyr Festival o'r darpariaethau cyfrinachedd yn eu contractau cyflogaeth.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p>	<p>JD</p> <p>JD</p>

<p>8.</p>	<p>Y Diweddaraf am yr Achos Busnes Terfynol</p> <p>Cadarnhaodd PBa fod Festival a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cydweithio ac yn cyd-ysgrifennu'r Achos Busnes Llawn, ond na fydd Festival yn cymryd perchnogaeth o'r ddogfen. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cytuno i rannu'r ddogfen hon gyda'r Cyrff Cyflawni Strategol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen i'r ddogfen hon gyrraedd Pwyllgor Cyllid yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Gorffennaf 2021.</p>	
<p>9.1</p>	<p>Blaengynllun ARAC</p> <p>Trafodwyd y blaengynllun, a chytunwyd i drefnu cyfarfod arall o'r Pwyllgor ym mis Awst i drafod adrodd ar risg.</p> <p>Nododd ARAC y blaengynllun.</p>	<p>SH</p>